Llysiau'r Dial

Mae gan Lysiau'r Dial (*Japanese Knotweed* yn Saesneg) nifer o is-rywogaethau sy'n perthyn yn agos, sydd hefyd yn groesrywiau. Mae darpariaethau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) yn berthnasol i bob un o'r rhain, a nodir ynddyn nhw, 'mae'n drosedd plannu neu fel arall achosi i'r planhigyn dyfu'n wyllt'.

Yn ôl Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990) mae Llysiau'r Dial yn dod dan y categori 'gwastraff a reolir' felly dylid eu gwaredu mewn safle tirlenwi trwyddedig o dan Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (1991).

O adnabod a thrin Llysiau'r Dial yn gynnar, bydd yn bosibl arbed arian ac amser yn y tymor hir gan fod y planhigyn wedi dechrau ymsefydlu'n unig, a bydd yn llai ystyfnig nag a fydd ar ôl ymsefydlu'n llawn.

Llysiau'r Dial ar Dir Preifat

Nid oes rhaid i ni na Chyfoeth Naturiol Cymru reoli Llysiau'r Dial ar ran tirfeddianwyr eraill. Y tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am reoli Llysiau'r Dial ar ei dir os yw'n effeithio ar dir cyfagos.

Mae dyfalbarhad rhisomau Llysiau'r Dial yn ei gwneud hi'n anodd lladd y planhigyn; bydd angen i chi drin Llysiau'r Dial am nifer o flynyddoedd, hyd yn oed os ydych yn meddwl eich bod wedi'i ladd ar ôl y driniaeth gyntaf.

Ar ôl unrhyw fath o driniaeth, dylid monitro'r ardal yn rheolaidd i sicrhau nad yw Llysiau'r Dial yn ymledu i rannau eraill nac yn halogi cyrsiau dŵr.

Nodwch: Bydd torri a ffustio Llysiau'r Dial yn eu lledaenu. Peidiwch â chompostio na naddu Llysiau'r Dial.

Cael Gwared ar Lysiau'r Dail
Ym Merthyr Tudful y mae eich safle gwaredu gwastraff trwyddedig agosaf sy'n derbyn Llysiau'r Dial.
Bydd angen i chi drefnu i gael gwared arno 24 awr ymlaen llaw.
Rhaid talu'r gost i gael gwared ar 3 thunnell fan lleiaf – a chyfran o'r Dreth Dirlenwi gan ddibynnu ar y pwysau.
Dylid gorchuddio trelars ar hyd y daith, a dylid clymu meintiau bach yn ddiogel mewn bag. Rhaid peidio â'i gludo'n rhydd.
Dylai gyrwyr sicrhau bod y cerbyd yn wag ac yn lân cyn gadael y safle.

Biffa Waste Services Ltd
Safle Tirlenwi Trecati
Pant-y-Waun, Merthyr Tudful, Morgannwg Ganol, CF48 4AB
01685 721882

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llysiau’r Dial wrth ymyl Cwrs Dŵr
Pan fo Llysiau’r Dial yn tyfu wrth ymyl afon neu gwrs dŵr, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Ffôn: 0300 0653000

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Llysiau'r Dial ar Dir y Cyngor
Os yw Llysiau'r Dial yn tyfu ar Dir Cyngor Bro Morgannwg, rhowch wybod i Gyswllt Un Fro.

Ffôn: 01446 700111 E-bost: visible@valeofglamorgan.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar Lysiau’r Dial a sut i atal planhigion ymledol, anfrodorol, ewch i wefan data.gov.uk.

This document is available in English/Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg